

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Dirybudd)

Hosbis Tŷ Shalom

Dyddiad yr arolygiad: 15 ac 16 Awst 2023

Dyddiad cyhoeddi: 16 Tachwedd 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-121-1

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	25

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Hosbis Tŷ Shalom ar 15 a 16 Awst 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, un adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y cleifion ond yn cael gwasanaethau gofal dydd. Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau cleifion mewnol wedi'u cyfyngu i 10 cyfnod o arhosiad y flwyddyn, pan fydd cyllid yn caniatáu.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a phedwar gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda iawn.

Mynegodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth roeddent yn eu cael. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus.

Gwelsom aelodau o'r staff yn ymdrin â'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a oedd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Roedd amgylchedd yr hosbis yn lân, yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd angen tacluso'r ardd/ardal barcio o flaen yr hosbis a chyntedd y fynedfa.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Tacluso'r ardd/ardal parcio a'r cyntedd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd mewnol glân a chroesawgar
- Yr ymgysylltu rhwng y staff â'i gilydd, â'r cleifion, ac â'u perthnasau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Hosbis Tŷ Shalom yn darparu gofal diogel a glân ar y cyfan.

Roedd dull amlddisgyblaethol o gynllunio a darparu gofal.

Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo. Fodd bynnag, nid oedd prosesau asesu ffurfiol ar waith er mwyn helpu i reoli cwympiadau a gofal briwiau pwyso.

Roedd amgylchedd mewnol yr hosbis yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, gwelsom rai materion yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau yr oedd angen eu gwella.

Roedd prosesau ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid adolygu'r broses o gopïo gwybodaeth o slipiau presgripsiwn i siartiau rhoi meddyginiaeth er mwyn lleihau'r risg o wallau.

Roedd anghenion gofal y cleifion yn cael eu diwallu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hybu eu llesiant a'u diogelwch. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd proses ar waith i asesu cleifion wrth eu derbyn ac nad oedd arsylwadau sylfaenol yn cael eu cynnal ar bob claf wrth ei dderbyn.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Nododd AGIC y materion difrifol canlynol yr oedd angen i'r darparwr fynd i'r afael â nhw ar unwaith er mwyn atal niwed sylweddol i'r cleifion, aelodau o'r cyhoedd a'r staff. Noder nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a bod manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad B:

- Nid oedd y person cofrestredig wedi sicrhau bod asesiadau ffurfiol wedi'u dogfennu wedi cael eu cynnal ar gyfer cleifion mewn perthynas â gofal briwiau pwyso a'r risg o gwmpo
- Nid oedd unrhyw asesiadau risg ffurfiol wedi'u dogfennu ar waith mewn perthynas â briwiau pwyso a chwympiadau ar gyfer cleifion a oedd yn cael gofal seibiant yn yr hosbis
- Nid oedd staff yr hosbis wedi cael hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal asesiadau ffurfiol o bob claf wrth ei dderbyn gan ddefnyddio adnodd asesu cydnabyddedig
- Cynnal arsylwadau sylfaenol, sy'n gysylltiedig â'r asesiad Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol, ar bob claf wrth ei dderbyn
- Adolygu cynnwys y pecyn anaffylaxis er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu canllawiau cyfredol Cyngor Dadebru'r DU
- Llunio asesiad risg yn ymwneud ag argaeledd a lleoliad y diffibriliwr
- Sicrhau bod y cod ar gyfer y diffibriliwr yn cael ei gadw yn rhywle y gall y staff gael afael arno'n hawdd mewn argyfwng
- Ystyried lleoliad y diffibriliwr yn asesiadau Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol cleifion
- Cynnwys datganiad yn y polisi hunanfeddyginiaeth i adlewyrchu'r ffordd y caiff silindrau ocsigen personol cleifion y deuir â nhw i'r hosbis eu rheoli
- Llunio polisi anafiadau nodwyddau
- Llunio asesiad risg clinigol sy'n gysylltiedig â chymwysterau a chymwyseddau'r staff

- Adolygu'r broses o gopio gwybodaeth o slipiau presgripsiwn i siartiau rhoi meddyginiaeth er mwyn lleihau'r risg o wallau
- Archwilio'r posibilrwydd o sicrhau cymorth fferyllol rheolaidd
- Cyflwyno system i ddangos pan fydd cyfarpar wedi cael ei lanhau, e.e. sticeri 'Rwy'n lân'
- Sicrhau bod modd tynnu'r gorchuddion ar y rheiddiaduron er mwyn glanhau y tu ôl iddynt yn effeithiol
- Cynnwys dyddiadau adolygu ar bob polisi a gweithdrefn ysgrifenedig
- Trefnu i gyfarpar meddygol megis teclynnau codi, peiriant sugno, dyfeisiau monitro pwysedd gwaed, dirlawnder ocsigen a lefelau siwgr yn y gwaed, gael eu gwirio, eu gwasanaethu a'u calibradu'n rheolaidd
- Newid i gofnodion electronig yn unig

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gofal cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Dull amlddisgyblaethol o asesu, cynllunio a darparu gofal
- Atal a rheoli heintiau yn gyffredinol
- Rheoli meddyginiaeth yn gyffredinol
- Prosesau asesu risg da ar gyfer cleifion gofal dydd
- Y defnydd o iPads ar gyfer y staff
- Gofynnir am gysyniad cleifion i rannu gwybodaeth

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr hosbis ac roedd y staff, yn gyffredinol, yn canmol y cymorth roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol yno.

Fodd bynnag, dywedodd dau aelod o'r staff, wrth ymateb i'r holiadur, nad yw'r uwch-reolwyr bob amser yn weladwy, a dywedodd un ymatebydd wrthym nad yw ei reolwr yn gofyn am ei farn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ei waith.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos gwybodaeth am sut i fynegi pryder neu wneud sylw mewn man amlwg yn yr hosbis er mwyn i'r cleifion ac ymwelwyr ei gweld
- Ffurfioli'r broses o oruchwylio staff sydd hefyd yn gweithio mewn lleoliadau eraill, er mwyn sicrhau bod yr oriau y maent yn eu gweithio yn cyd-fynd â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith
- Ffurfioli proses archwilio ac adrodd gynhwysfawr

- Ffurfioli cofrestr risgiau gynhwysfawr
- Sicrhau bod y darparwr cofrestredig yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn llawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Hygyrchedd y rheolwr
- Proses recriwtio
- Cymorth a threfniadau goruchwyllo ar gyfer y staff
- Trefniadau goruchwyllo da gan y rheolwr
- Trefniadau ymgysylltu a goruchwyllo da gan yr ymddiriedolwyr
- Polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr
- Prosesau cyfathrebu da rhwng y staff a'r cleifion.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, yn ogystal â thrafodaethau wyneb yn wyneb, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan y cleifion am y gwasanaeth a gynigir yn Hosbis Tŷ Shalom.

Cafwyd cyfanswm o naw ymateb. Ni wnaeth rhai o'r ymatebwyr ateb pob cwestiwn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn gadarnhaol iawn am y gofal a gynigir yn Hosbis Tŷ Shalom. Roeddent yn cynnwys:

“Rwy'n fodlon iawn ar yr holl ofal rwyf wedi ei gael.”

“Mae hwn yn lle hyfryd sydd wedi'i staffio gan bobl anhygoel, cymwynasgar a gwybodus. Gan siarad fel claf, peidiwch byth â newid.”

Adborth gan Staff

Gwnaethom ddsbarthu holiaduron ar-lein er mwyn casglu barn y staff sy'n gweithio yn Hosbis Tŷ Shalom. Roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol ar y cyfan, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i'r cleifion. Dywedodd y staff wrthym hefyd y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan yr hosbis ar eu cyfer nhw eu hunain neu eu ffrindiau a'u teulu, a bod yr hosbis yn lle da i weithio.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff.

Nodir isod rai o'r sylwadau cadarnhaol a gafwyd gan y staff a'r awgrymiadau a wnaed o ran sut y gellid gwella'r gwasanaeth:

“Mae Tŷ Shalom yn wasanaeth gofal dydd ardderchog i bobl â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd yn Sir Benfro. Rwy'n teimlo y gallai Tŷ Shalom gael ei ddefnyddio'n well pe bai mwy o gyllid ar gael, i ddarparu wythnosau ychwanegol o ofal seibiant a gofal diwedd oes i'r rhai nad ydyn nhw'n dymuno marw yn yr ysbyty neu yn eu cartref eu hunain.”

“Mae'n lle hyfryd, ac mae gofal a lles pobl wrth wraidd popeth. Byddai'n braf ei weld yn ailagor yn llawn amser i gynnig y gofal diwedd oes y mae angen dirfawr amdano yn Sir Benfro.”

“Mae'r rheolwyr a'r Ymddiriedolwyr wedi fy nghefnogi, yn bersonol ac fel rhan o'm rôl. Gallaf ddweud â llaw ar fy nghalon ei bod wedi bod yn bleser ac yn ffrainth gweithio yma. Rwyf wedi gweld yr effaith gadarnhaol y mae'r gwasanaeth wedi ei chael ar fywydau pobl, a byddwn yn argymhell yr hosbis i unrhyw un y mae angen gofal arno ar adeg mor anodd yn ei fywyd.”

“Mae'r cyfan yn troi o gwmpas y cleifion. Mae'r tîm yn darparu lefelau ardderchog o ofal a chymorth gan eu bod yn cael yr amser i wneud hynny.”

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth a phamffledi yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn amrywiol rannau o'r hosbis, ac roedd llawer ohonynt yn ddwyieithog.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

Urddas a pharch

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y staff.

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn garedig ac yn dangos parch at y cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth iddynt ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais a'u bod yn gwranddo, arnyn nhw ac ar eu ffrindiau ac aelodau o'u teulu, a bod y staff yn eu galw wrth yr enw yr oedd yn well ganddynt ei ddefnyddio.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall.

Roedd yr ystafelloedd gwely wedi'u dodrefnu a'u haddurno i safon dda. Roedd lolfa gymunedol ac ystafell fwyta ar wahân ar gael i'r cleifion a'u perthnasau eu defnyddio. Roedd gardd ag ardal eistedd awyr agored ar gael i'r cleifion ac ymwelwyr ei defnyddio hefyd, er mwyn iddynt fwynhau'r golygfeydd godidog o gefn gwlad.

Roedd y cleifion yn cael cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau a sesiynau therapi grŵp a/neu unigol.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion, a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y gwahanol fathau o wasanaethau a ddarperir, cyfleusterau a staff yr hosbis.

Gwelsom y staff yn gofyn am gydsyniad cleifion cyn rhoi gofal iddynt, a gwelsom fod cydsyniad cleifion hefyd yn cael ei geisio cyn rhannu gwybodaeth am eu gofal â gweithwyr proffesiynol eraill.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd pwylllog ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio'r enwau roeddent yn eu ffafrio Gwelwyd aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd a oedd yn eu hannog ac yn eu cynnwys.

Dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o'r staff ac un o'r Ymddiriedolwyr yn siarad Cymraeg, a oedd yn golygu y gallai cleifion a pherthnasau a oedd yn siarad Cymraeg sgwrsio â nhw yn Gymraeg pe byddent yn dewis gwneud hynny.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dda, a gwelsom fod y gwerthusiadau ysgrifenedig a gwblhawyd gan y staff gofal yn gynhwysfawr yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r gofal a ddarparwyd.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu eu gofal eu hunain, cyhyd ag yr oedd hynny'n bosibl. Lle nad oedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gwelsom dystiolaeth fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal i'w ddarparu.

Roedd y tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol yn rhoi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn yn ôl yr anghenion a aseswyd ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol eraill fel y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe, deietegydd, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion am newidiadau o ran anghenion y cleifion.

O ran y cleifion hynny a oedd yn cael gofal seibiant, nodwyd gennym fod systemau digonol ar waith ar gyfer cynllunio i'w rhyddhau a bod y cleifion yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill fel ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol cyn gadael yr hosbis.

Mae tîm yr hosbis yn ymgynghori â thîm gofal lliniarol y bwrdd iechyd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. O ganlyniad, gallai'r staff gael gafael ar gymorth a chynghor arbenigol pan fo angen, er enghraifft gan ddeietegwyr, nyrsys arbenigol ar gyfer hyfywedd meinwe a therapyddion lleferydd ac iaith.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, roedd drysau ystafelloedd gwely yn cael eu cau pan oedd gofal yn cael ei roi.

Nodwyd gennym fod asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ac asesiadau Galluedd Meddyliol yn cael eu cynnal fel y bo angen.

Roedd ffurflenni Na Cheisier Dadebru (DNAR) yn cael eu cwblhau gan ymgynghori â'r claf neu'r cynrychiolydd teuluol a benodwyd ar ei gyfer. Gwnaethom argymhell y dylai penderfyniad claf ynghylch dadebru gael ei nodi'n glir ar flaen ei nodiadau.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod penderfyniad claf ynghylch dadebru gael ei nodi'n glir ar flaen ei nodiadau.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedodd y staff wrthym fod nifer y cwynion sy'n dod i law am y gwasanaeth yn isel iawn, a bod camau'n cael eu cymryd i ymdrin â nhw'n uniongyrchol lle bo modd.

Cyfeirir at weithdrefnau pryderon a chwynion yr hosbis yn y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion. Roedd y trefniadau hyn yn gyson â'r rheoliadau a'r safonau. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos yn yr hosbis nac ar ei wefan yn rhoi gwybod i'r cleifion ac ymwelwyr sut i wneud cwyn neu sylw am y gwasanaeth a gynigiwyd.

Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn yr hosbis ac ar y wefan ynglŷn â sut i wneud cwyn neu sylw.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol, ac mai gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'w perthnasau/gofalwyr, oedd prif flaenoriaethau'r staff.

Roedd polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd y rhain yn seiliedig ar ganllawiau clinigol cyfredol. Fodd bynnag, nid oedd y dogfennau hyn yn cynnwys dyddiadau adolygu.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisiau a'r gweithdrefnau yn cynnwys dyddiadau adolygu.

Roedd asesiadau risg ac archwiliadau cyffredinol yn cael eu cynnal er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd asesiadau risg clinigol cleifion, megis asesiadau risg ar gyfer cwympiadau a briwiau pwysu, yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom hefyd nad oedd polisi anafiadau nodwydd ar waith.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff polisi anafiadau nodwydd ei lunio a gwneud yn siŵr bod y staff yn gwybod pa gamau i'w cymryd pe bai anaf o'r fath.

Gwelsom fod trefniadau boddhaol ar waith o ran diogelwch, dyletswyddau ar alwad a chynllunio ar gyfer argyfyngau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau cadw tŷ a chynnal a chadw da ar waith ar y cyfan. Roedd yr ardaloedd a'r ystafelloedd cymunedol a welsom yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid cyflwyno system i ddangos pan fydd cyfarpar wedi cael ei lanhau, e.e. sticeri 'Rwy'n lân'. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r staff lanhau y tu ôl i'r rheiddiaduron yn rheolaidd.

Dylai'r darparwr cofrestredig gyflwyno system i ddangos pan fydd cyfarpar wedi cael ei lanhau, e.e. sticeri 'Rwy'n lân'.

Dylai'r darparwr cofrestredig hefyd sicrhau bod y staff yn glanhau y tu ôl i'r rheiddiaduron yn rheolaidd.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith, wedi'i ategu gan amserlenni glanhau cynhwysfawr. Fodd bynnag, nid oedd y polisi'n cynnwys gwybodaeth am ddihalogi cyfarpar megis y peiriant sugno.

Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r polisi atal a rheoli heintiau a chynnwys adran ar ddihalogi cyfarpar meddygol.

Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig bod unrhyw archwiliadau atal a rheoli heintiau ffurfiol wedi cael eu cynnal.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi proses ffurfiol ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau atal a rheoli heintiau, a chadw cofnodion o ganfyddiadau'r archwiliadau hynny.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u gosod mewn mannau strategol o amgylch yr hosbis. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod archwiliadau hylendid dwylo wedi cael eu cynnal.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi archwiliadau hylendid dwylo ffurfiol ar waith, a chadw cofnodion o ganfyddiadau'r archwiliadau hynny.

Maeth

Ar adeg yr arolygiad, roedd disgwyl i'r cleifion a oedd yn cael gofal dydd ddod â'u bwyd eu hunain. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y staff yn paratoi bwyd i'r cleifion sy'n cael gofal seibiant.

Roedd y staff yn darparu diodydd oer, te a choffi i'r cleifion drwy'r dydd.

Gwelsom y staff yn helpu cleifion i fwyta ac yfed yn ôl yr angen.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel, yn effeithiol ac yn drefnus ar y cyfan.

Roedd polisi rheoli meddyginiaeth cynhwysfawr ar waith. Roedd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol.

Gwelsom aelodau o'r staff yn rhoi meddyginiaeth ac edrychwyd ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth. Nodwyd fod y broses yn cael ei rheoli'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom fod y staff yn copïo gwybodaeth o slipiau presgripsiwn i siartiau rhoi meddyginiaeth unigol yn rheolaidd. Mae hyn yn cynyddu'r risg o wallau, a dylid adolygu'r broses.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r broses o gopiò gwybodaeth o slipiau presgripsiwn i siartiau rhoi meddyginiaeth er mwyn lleihau'r risg o wallau.

Roedd polisi hunanfeddyginiaethu ar waith. Fodd bynnag, nid oedd hwn yn cynnwys gwybodaeth am reoli silindrau ocsigen y mae cleifion yn dod â nhw i'r hosbis.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r polisi hunanfeddyginiaethu, a chynnwys adran ar reoli silindrau ocsigen y mae cleifion yn dod â nhw i'r hosbis.

Gwelsom fod angen adolygu'r meddyginiaethau yn y pecyn anaffylacsis er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu canllawiau cyfredol Cyngor Dadebru'r DU.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r meddyginiaethau yn y pecyn anaffylacsis er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu canllawiau cyfredol Cyngor Dadebru'r DU.

Nid oedd yr hosbis yn cael cymorth fferyllol rheolaidd, ac argymhellir y dylai'r darparwr cofrestredig archwilio'r posibilrwydd o sicrhau cymorth o'r fath.

Dylai'r darparwr cofrestredig archwilio'r posibilrwydd o sicrhau cymorth fferyllol rheolaidd.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisiau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu gweithredol yn yr hosbis ar adeg yr arolygiad.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd amrywiaeth o gyfarpar meddygol yn yr hosbis, megis teclynnau codi a chario, peiriant sugno, dyfeisiau monitro pwysedd gwaed, dirlawnder ocsigen a lefelau siwgr yn y gwaed.

Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i dogfennu i ddangos bod yr eitemau hyn o gyfarpar wedi cael eu gwirio, eu gwasanaethu na'u calibradu'n rheolaidd.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cyfarpar ei wirio, ei wasanaethu a'i galibradu'n rheolaidd ac y caiff cofnodion eu cadw i ddangos hyn.

Nid oedd diffibriliwr yn yr hosbis, ac roedd yr un agosaf wedi'i leoli y tu allan i'r clwb rygbi cyfagos. Roedd y cod ar gyfer y diffibriliwr yn cael ei gadw yn ystafell y staff ar lawr cyntaf yr hosbis. Nid oedd asesiad risg ar waith i ddangos lleoliad y diffibriliwr, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod hyn yn cael ei ystyried wrth drafod dymuniadau o ran dadebru â chleifion a'u perthnasau.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig lunio asesiad risg sy'n adlewyrchu lleoliad y diffibriliwr a sicrhau bod hyn yn cael ei esbonio'n glir i gleifion a'u perthnasau wrth drafod eu dymuniadau o ran dadebru. At hynny, rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cod ar gyfer y diffibriliwr yn cael ei gadw yn rhywle y gall y staff gael afael arno'n hawdd mewn argyfwng.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd tystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng staff gofal yr hosbis a gweithwyr proffesiynol eraill, staff therapi, meddygon teulu a nyrsys arbenigol.

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, nid oedd Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn cael eu hasesu na'u cofnodi fel mater o drefn ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn cael gofal seibiant, er mwyn monitro unrhyw wroddi wrth sgôr sylfaenol ac ymateb iddo.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cynnal ac yn dogfennu asesiadau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ar gyfer pob claf sy'n cael gofal seibiant.

Gwelsom nad oedd asesiad risg cyffredinol ar waith mewn perthynas â chymhwysedd y staff. O ystyried bod y gwasanaeth yn weddol anghysbell o ran lleoliad a mynediad at wasanaethau gofal iechyd eraill, teimlwn fod angen asesiad risg o'r fath.

Dylai'r darparwr cofrestredig gynnal asesiad risg clinigol cynhwysfawr sy'n gysylltiedig â hyfforddiant a chymhwysedd y staff. Dylai'r darparwr cofrestredig hefyd ddogfennu ac adolygu'r asesiad risg yn rheolaidd.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am y cleifion a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion electronig yn cael eu cadw ar gyfer y cleifion gofal dydd ac roedd cofnodion papur yn cael eu cadw ar gyfer y cleifion gofal seibiant. Gwnaethom argymhell y dylai cofnodion pob claf gael eu cadw'n electronig.

Dylai'r darparwr cofrestredig newid i system rheoli cofnodion cleifion cwbl electronig.

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi'i leoli yn yr hosbis, gan olygu ei fod ar gael i'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr. Roedd hyn hefyd yn ei alluogi i fonitro ac asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, roedd hon yn broses anffurfiol ac nid oedd unrhyw strwythur ffurfiol ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu a rheoli'r hosbis.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig ffurfioli'r trefniadau llywodraethu a rheoli drwy gyflwyno rhaglen dreigl o waith i archwilio'r gwasanaeth a ddarperir, adrodd arno, a'i werthuso.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith o ddydd i ddydd i oruchwylio a chefnogi'r staff a gwelsom fod adolygiadau perfformiad ac adolygiadau arfarnu staff ffurfiol, wedi'u dogfennu, yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd cofnodion yn cael eu cymryd a'u rhannu â'r aelodau hynny o'r staff nad oeddent yn bresennol.

Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff ac roeddent yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Dywedwyd wrthym fod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r hosbis yn rheolaidd a bod modd cysylltu ag ef dros y ffôn neu drwy e-bost fel arall. Mae hyn yn ei alluogi i fonitro'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn golygu ei fod yn hygyrch i'r staff, y cleifion a'u perthnasau. Mae aelodau eraill o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn ymweld â'r hosbis yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i dogfennu o'r ymweliadau hyn.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn llawn.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion yr hosbis, sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn darparu gwybodaeth am sut i godi pryder neu gŵyn.

Cawsom wybod gan y staff fod nifer y cwynion a geir am yr hosbis yn isel iawn a bod yr hosbis yn delio â nhw'n uniongyrchol lle y bo'n bosibl.

Dywedodd pob un o'r aelodau o staff a gwblhaodd yr holiadur fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu

ddigwyddiadau, a'u bod o'r farn bod y staff hynny sy'n gysylltiedig ag achosion o'r fath yn cael eu trin yn deg.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am arfer clinigol anniogel a'u bod yn hyderus y byddai'r sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon.

Fel y nodwyd yn flaenorol, ni welsom unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos yn yr hosbis nac ar ei wefan yn rhoi gwybod i'r cleifion ac ymwelwyr sut i wneud cwyn neu sylw am y gwasanaeth a gynigiwyd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd staff yr hosbis yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant mewnol ac allanol.

Roedd y wybodaeth am hyfforddiant y staff a ddarparwyd yn dangos bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn dda. Roedd disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn pynciau fel diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Iechyd a Diogelwch a Diogelu yn ogystal â hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd yr holiadur o'r farn eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl. Roedd un yn cytuno 'i raddau', a gwnaeth dau ymatebwr y sylwadau canlynol ar yr hyfforddiant a fyddai'n ddefnyddiol iddynt, yn eu barn nhw:

“Hyfforddiant penodol ar ofal lliniarol.”

“Mwy o hyfforddiant ar ofal lliniarol efallai.”

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu Roedd proses recriwtio staff ffurfiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a gwelsom fod yr hosbis wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn i'r staff ddechrau gweithio.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Hosbis Tŷ Shalom

Dyddiad yr arolygiad: 15 ac 16 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod asesiadau ffurfiol wedi'u dogfennu yn cael eu cynnal ar gyfer cleifion mewn perthynas â gofal briwiau pwyso a'r risg o gwmpo, a bod y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15 (1)	Llunio asesiadau risg mewn perthynas â gofal briwiau pwyso a'r risg o gwmpo - lanlwythwyd fersiynau diwygiedig ar 05/09/23 Cwblhau dau asesiad risg clinigol mewn perthynas â gofal briwiau pwyso a'r risg o gwmpo. Caiff yr holl asesiadau risg eu hadolygu gan y nyrsys cofrestredig fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> Wrth dderbyn claf 	Rheolwr Cofrestredig Nyrsys Cofrestredig Wedi'i oruchwylio gan y Rheolwr Cofrestredig Nyrsys Cofrestredig	Rhodddwyd asesiadau risg sylfaenol ar waith mewn perthynas â briwiau pwyso a'r risg o gwmpo ar 23/08/2023 - gweler y fersiynau diwygiedig a lanlwythwyd ar 05/09/23 Dydd Gwener 8 Medi 2023 Yn barhaus

		<ul style="list-style-type: none"> • Yn ystod yr adolygiad bob 10 wythnos • Yn ystod pob cyfnod o ofal seibiant • Os bydd unrhyw anghenion yn newid <p>Adolygu a diweddarau'r polisi Asesu Risg i nodi dyddiad adolygu ar gyfer pob asesiad risg - gweler y polisi diwygiedig a lanlwythwyd ar 05/09/2023</p>	<p>Wedi'i oruchwylio gan y Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p>	<p>Wedi'i gwblhau 05/09/2023</p>
<p>Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod staff yr hosbis wedi cael hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol a sicrhau y caiff yr hyfforddiant hwn ei ddiweddarau'n rheolaidd.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 21 (1) (a)</p>	<p>Mae ein dwy Nyrs Gofrestredig dan gontract a'r Rheolwr Cofrestredig a'r Rheolwr Busnes wedi cwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol Lefel 1 ar-lein - gweler y matrices hyfforddiant a'r tystysgrifau a lanlwythwyd.</p> <p>Mae un o'n Nyrsys Cofrestredig Banc wedi cwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol Lefel 1, 2 a 3 - gweler y matrices hyfforddiant.</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Nyrs Gofrestredig</p> <p>Wedi'i oruchwylio gan y Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Nyrs Gofrestredig</p>	<p>Wedi'i gwblhau 05/09/2023</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>13 Hydref 2023</p>

	<p>Nid yw'r ail Nyrs Gofrestredig Banc wedi cwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol ac ni fydd yn gweithio yn Hosbis Tŷ Shalom nes y bydd wedi cwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol wyneb yn wyneb (ar 13 Hydref 2023 neu cyn hynny).</p> <p>Mae hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol wyneb yn wyneb wedi'i drefnu ar gyfer y tîm yn Hosbis Tŷ Shalom.</p> <p>Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn.</p>	<p>Wedi'i oruchwylio gan y Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p>	<p>Mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer y tîm cyfan, gan gynnwys staff banc nad ydynt wedi cwblhau hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol wyneb yn wyneb, ddydd Gwener 13 Hydref 2023.</p>
--	---	---	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw (priflythrennau): Miss Donna Humphrey

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 5 Medi 2023

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hosbis Tŷ Shalom

Dyddiad yr arolygiad: 15 ac 16 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod penderfyniad claf ynghylch dadebru gael ei nodi'n glir ar flaen ei nodiadau.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae Cynllun Darparu Gwasanaeth pob unigolyn yn cynnwys manylion ynghylch dadebru. Bydd y manylion hyn bellach yn cael eu hamlygu er mwyn eu gwneud yn fwy eglur i bob aelod o'r tîm. Y Cynllun Darparu Gwasanaeth yw'r ddogfen gyntaf y bydd pob aelod o'r tîm yn troi ati i lywio'r broses o ddarparu gofal. At hynny, yn ystod cyfnodau o ofal seibiant, mae manylion am ddymuniadau dadebru pob unigolyn hefyd wedi cael eu hamlygu ar y ffurflenni	Y Rheolwr Cofrestredig a'r Nyrsys Cofrestredig	Ar unwaith
	Rheoliad 15 Safon 7.		Y Rheolwr Cofrestredig a'r Nyrsys Cofrestredig	Ar unwaith

		trosglwyddo dyddiol, yn ychwanegol at y Cynlluniau Darparu Gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn ymwybodol o ddymuniadau pob unigolyn o ran dadebru, ar lafar ac ar ffurf ysgrifenedig.		
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn yr hosbis ac ar y wefan ynglyn â sut i wneud cwyn neu sylw.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Rydym wedi cyfarwyddo ein hadran Cymorth TG i ychwanegu'r polisi cwynion at y wefan.	Y Rheolwr Busnes a'r adran Cymorth TG	03/11/2023
	Rheoliad 19 a 24	Bydd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei hychwanegu at yr hysbysfwrdd wrth fynedfa'r hosbis er mwyn ei gwneud yn haws codi unrhyw bryderon neu wneud unrhyw gwynion neu sylwadau cadarnhaol.	Rheolwr Busnes	03/11/2023
	Safon 5. Ymgysylltu â Dinasyddion a'u Hadborth	Byddwn yn creu cod QR i gyfeirio'n uniongyrchol at y wefan, a bydd hwn yn cael ei ychwanegu at yr hysbysfwrdd.	Rheolwr Busnes	03/11/2023
	Safon 23. Delio â Phryderon a Rheoli Digwyddiadau			

<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisiâu a'r gweithdrefnau yn cynnwys dyddiadau adolygu.</p>	<p>Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 19</p> <p>Safon 1. Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd</p>	<p>Byddwn yn adolygu pob polisi a gweithdrefn er mwyn sicrhau bod pob polisi yn cynnwys dyddiad adolygu.</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig</p>	<p>10/11/2023</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff polisi anafiadau nodwydd ei lunio a gwneud yn siŵr bod y staff yn gwybod pa gamau i'w cymryd pe bai anaf o'r fath.</p>	<p>Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 9 a 19</p> <p>Safon 22. Rheoli Risg ac lechyd a Diogelwch</p>	<p>Ymdrinnir ag anafiadau nodwydd mewn tri pholisi arall, ond er mwyn rhoi mwy o wybodaeth ac eglurder i'r tîm, byddwn hefyd yn llunio Polisi Anafiadau Nodwydd ar wahân.</p> <p>Bydd pob aelod o'r tîm yn cwblhau hyfforddiant ar Anafiadau Nodwydd.</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p>	<p>10/11/2023</p> <p>20/11/2023</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cyfarpar ei wirio, ei wasanaethu a'i galibradu'n</p>		<p>Byddwn yn archwilio'r holl gyfarpar yn Hosbis Tŷ Shalom er</p>	<p>Rheolwr Busnes</p>	<p>10/11/2023 ac yn barhaus.</p>

		archwiliad atal a rheoli heintiau misol er mwyn sicrhau y caiff safonau atal a rheoli heintiau uchel eu cynnal.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi proses ffurfiol ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau atal a rheoli heintiau, a chadw cofnodion o ganfyddiadau'r archwiliadau hynny.		Caiff archwiliad atal a rheoli heintiau ei greu, i'w gwblhau'n fisol. Caiff unrhyw ganfyddiadau eu cofnodi ac eir i'r afael â nhw, er mwyn sicrhau y caiff safonau atal a rheoli heintiau uchel eu cynnal.	Y Rheolwr Busnes a'r Rheolwr Cofrestredig	01/12/2023 ac yn barhaus.
Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi archwiliadau hylendid dwylo ffurfiol ar waith, a chadw cofnodion o ganfyddiadau'r archwiliadau hynny.		Caiff polisi hylendid dwylo ffurfiol ei lunio yn seiliedig ar Archwiliad Hylendid Dwylo y GIG. Bydd pob aelod o'r tîm yn cwblhau hyfforddiant ar hylendid dwylo er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf a bod pawb yn deall pwysigrwydd hylendid dwylo yn llawn.	Rheolwr Busnes Donna Humphrey Y Rheolwr Busnes a'r Rheolwr Cofrestredig	10/11/2023 20/11/2023 10/11/2023 ac yn barhaus

		(Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), Fferyllydd Clwstwr y Gogledd a'r Fferyllfa Gymunedol er mwyn ceisio cyngor ar sut i sicrhau bod y broses mor gadarn â phosibl, a bydd y canlyniadau'n ffurfio rhan o'r adolygiad o'r broses o gopïo gwybodaeth am feddyginiaethau ar bresgripsiwn.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r polisi hunanfeddyginiaethu, a chynnwys adran ar reoli silindrau ocsigen y mae cleifion yn dod â nhw i'r hosbis.		Caiff y Polisi Hunanfeddyginiaethu ei adolygu a'i ddiweddarau er mwyn cynnwys rheoli silindrau ocsigen, gan gynnwys y cleifion hynny sy'n defnyddio eu hocsigen eu hunain heb gymorth.	Rheolwr Cofrestredig	24/11/2023
Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r meddyginiaethau yn y pecyn anaffylacsis er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu canllawiau cyfredol Cyngor Dadebru'r DU.		Caiff y pecyn anaffylacsis ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Cyngor Dadebru y DU. Os canfyddir bod angen newid neu brynu unrhyw eitemau, caiff hynny ei wneud.	Rheolwr Busnes Nyrsys Cofrestredig	03/11/2023

		Caiff y pecyn anaffylacsis ei gynnwys yn yr archwiliad o gyfarpar, a'i wirio'n fisol.	Y Rheolwr Busnes a'r Rheolwr Cofrestredig	15/12/2023
Rhaid i'r darparwr cofrestredig lunio asesiad risg sy'n adlewyrchu lleoliad y diffibriliwr a sicrhau bod hyn yn cael ei esbonio'n glir i gleifion a'u perthnasau wrth drafod eu dymuniadau o ran dadebru. At hynny, rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cod ar gyfer y diffibriliwr yn cael ei gadw yn rhywle y gall y staff gael afael arno'n hawdd mewn argyfwng.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15 Safon 7.	Caiff asesiad risg ei lunio mewn perthynas â lleoliad y diffibriliwr, a'i rannu â'r tîm. Caiff lleoliad y diffibriliwr ei drafod fel rhan o'r broses asesu gychwynnol a gynhelir gydag unrhyw unigolyn sy'n mynychu'r hosbis, ar gyfer gofal dydd a gofal seibiant. Byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ein Datganiad o Ddiben i gynnwys y wybodaeth hon. Caiff y wybodaeth a roddir wrth dderbyn cleifion gofal seibiant ei hadolygu a'i diweddarau er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n	Rheolwr Busnes Rheolwr Cofrestredig Nyrsys Cofrestredig Y Rheolwr Cofrestredig a'r Nyrsys Cofrestredig Rheolwr Cofrestredig	10/11/2023 Ar unwaith 22/11/2023 - yn cynnwys amser i'r Datganiad o Ddiben diwygiedig gael ei anfon i AGIC. 10/11/2023

		<p>mynychu am ofal seibiant a'u teuluoedd yn ymwybodol o leoliad y diffibriliwr agosaf.</p> <p>Mae'r cod ar gyfer y diffibriliwr wedi cael ei nodi yn yr olchfa ar y llawr gwaelod er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn gallu cael gafael arno'n hawdd mewn argyfwng.</p> <p>Rhoddir gwybod i bob aelod o'r tîm am leoliad newydd y cod drwy neges e-bost at y tîm cyfan.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn gwbl ymwybodol o leoliad y cod hwn, bydd y wybodaeth hon yn cael ei hailadrodd yng nghyfarfod nesaf y tîm ym mis Rhagfyr 2023.</p>	<p>Rheolwr Busnes</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p>	<p>30/10/2023</p> <p>30/10/2023</p> <p>22/12/2023</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cynnal ac yn dogfennu asesiadau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ar gyfer pob claf sy'n cael gofal seibiant.</p>		<p>Mae asesiad Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol wedi cael ei ychwanegu at ffurflenni derbyn cleifion gofal seibiant, a gaiff eu cwblhau gan y Nyrsys</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig</p>	<p>Ar unwaith</p>

		<p>Cofrestredig ar y diwrnod y bydd y claf yn cyrraedd Hosbis Tŷ Shalom am ofal seibiant.</p> <p>Mae asesiad Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol wedi cael ei ychwanegu at y ffurflen trosglwyddo gofal seibiant er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn gwbl ymwybodol o'r angen i'w gynnal a'i ddogfennu.</p>	Rheolwr Cofrestredig	Ar unwaith
<p>Dylai'r darparwr cofrestredig gynnal asesiad risg clinigol cynhwysfawr sy'n gysylltiedig â hyfforddiant a chymhwysedd y staff. Dylai'r darparwr cofrestredig hefyd ddogfennu ac adolygu'r asesiad risg yn rheolaidd.</p>		<p>Gofynnir i bob aelod o'r tîm lunio rhestr o'i gymwyseddau proffesiynol cyfredol.</p> <p>Bydd y wybodaeth hon, ar y cyd â'r matrices hyfforddiant, yn darparu cofnod o gymwyseddau a sgiliau'r tîm.</p> <p>Caiff asesiad risg ei lunio er mwyn nodi unrhyw fylchau mewn cymhwysedd.</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Aelodau'r Tîm</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p>	<p>01/12/2023</p> <p>10/01/2024</p> <p>01/02/2024</p>

		<p>Caiff yr asesiad risg hwn ei adolygu bob blwyddyn.</p> <p>Bydd y cofnod hwn o gymwyseddau yn helpu i nodi anghenion hyfforddi yn y dyfodol.</p> <p>Caiff y cofnod hwn o gymwyseddau ei archwilio bob blwyddyn.</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwr Cofrestredig</p>	<p>Yn barhaus ar ôl 01/02/2024</p> <p>Yn barhaus ar ôl 10/01/2024</p> <p>Yn barhaus ar ôl 10/01/2024</p>
<p>Dylai'r darparwr cofrestredig newid i system rheoli cofnodion cleifion cwbl electronig.</p>	<p>Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 23</p> <p>Safon 20. Rheoli Cofnodion</p>	<p>Caiff yr holl gofnodion, ar gyfer cleifion gofal dydd a gofal seibiant, bellach eu storio'n electronig fel bod pob aelod o'r tîm yn gallu cael gafael arnynt yn llawn.</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Nyrsys Cofrestredig</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig ffurfioli'r trefniadau llywodraethu a rheoli drwy gyflwyno rhaglen dreigl o waith i archwilio'r gwasanaeth a</p>	<p>Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p>	<p>Byddwn yn creu archwiliadau misol ar gyfer y canlynol:</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwr Busnes</p>	<p>10/11/2023</p>

<p>ddarperir, adrodd arno, a'i werthuso.</p>	<p>Rheoliad 19</p> <p>Safon 1.</p> <p>Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd</p>	<p>Prosesau glanhau Prosesau hylendid dwylo Prosesau atal a rheoli heintiau.</p> <p>Caiff archwiliadau chwe-misol eu creu ar gyfer y canlynol: Gwirio, calibradu a gwasanaethu'r holl gyfarpar.</p> <p>Caiff archwiliadau blynyddol eu creu ar gyfer y canlynol: Cymwyseddau</p>		<p>15/12/2023</p> <p>01/02/2024</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn llawn.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> <p>Rheoliad 28</p>	<p>Caiff cofnod Ymweliadau Ansawdd / Cysylltiadau ei lunio i gofnodi pob ymweliad neu gyswllt gan yr Unigolyn Cyfrifol neu Ymddiriedolwr mewn perthynas â Hosbis Tŷ Shalom.</p> <p>Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau Ymweliad Ansawdd / Cyswllt bob chwe mis. Gall hyn fod yn ymweliad dirybudd er mwyn sicrhau bod y broses o redeg Hosbis Tŷ Shalom o ddydd</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Unigolyn Cyfrifol</p> <p>Unigolyn Cyfrifol</p>	<p>03/11/2023</p> <p>31/01/2024 ac yna'n barhaus</p>

	<p>i ddydd yn cael ei goruchwylio'n llawn.</p> <p>Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cyfarfod â'r unigolion hynny sy'n defnyddio gwasanaethau Tŷ Shalom ac aelodau'r tîm er mwyn casglu gwybodaeth am y gwasanaeth o safbwynt pawb.</p> <p>Bydd yr Unigolyn Cyfrifol hefyd yn archwilio adeilad Tŷ Shalom ac yn cofnodi'r archwiliadau hyn ar y ffurflen Ymweliadau Ansawdd / Cysylltiadau.</p> <p>Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn dogfennu'r ymweliadau hyn drwy gwblhau'r cofnod Ymweliadau Ansawdd / Cysylltiadau. Caiff canfyddiadau pob Ymweliad Ansawdd / Cyswllt eu rhannu â'r Ymddiriedolwyr a'r Rheolwr Cofrestredig.</p> <p>Rhoddir diweddariad misol i'r Unigolyn Cyfrifol a'r holl Ymddiriedolwyr am unrhyw bryderon, cwynion a sylwadau</p>	<p>Unigolyn Cyfrifol</p> <p>Unigolyn Cyfrifol</p> <p>Y Rheolwr Cofrestredig a'r Rheolwr Busnes</p> <p>Unigolyn Cyfrifol/Ymddiriedolwyr</p>	<p>31/12/2023 ac yn barhaus</p> <p>31/12/2023 ac yn barhaus</p> <p>20/11/2023 ac yn barhaus</p> <p>Ar waith ac yn mynd rhagddo'n barhaus</p> <p>Ar waith ac yn mynd rhagddo'n barhaus</p>
--	---	--	---

		<p>cadarnhaol a gafwyd mewn perthynas â'r gwasanaeth.</p> <p>Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r Ymddiriedolwyr yn cynnal cyfarfod yn Hosbis Tŷ Shalom bob mis er mwyn rhoi gwybodaeth a chymorth i bawb yn yr hosbis.</p> <p>Cymerir cofnodion yn y cyfarfodydd hyn, sy'n cynnwys trafodaethau parhaus, goruchwyllo trefniadau rheoli cyffredinol yn Hosbis Tŷ Shalom a chodi ymwybyddiaeth ohonynt, adborth gan y tîm, pryderon, sylwadau cadarnhaol, hyfforddiant ynghyd â gweithgareddau presennol y gwasanaeth, cynllunio ar gyfer y dyfodol, unrhyw bryderon diogelu (lle y bo'n gymwys), goruchwyliaeth ariannol a phob mater sy'n ymwneud â Hosbis Tŷ Shalom.</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig</p> <p>Rheolwr Busnes</p>	
--	--	---	---	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Miss Donna Humphrey

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 27/10/2023